| | |
|---|---|
| **Adroddiad i'r** | Pwyllgor Safonau |
| **Dyddiad y cyfarfod** | 13 Rhagfyr 2024 |
| **Aelod Arweiniol / Swyddog** | Julie Matthews, Aelod Arweiniol Polisi, Cydraddoldeb a Strategaeth Gorfforaethol |
| **Pennaeth Gwasanaeth** | Gary Williams, Cyfarwyddwr Corfforaethol Llywodraethu a Busnes |
| **Awdur yr Adroddiad** | Gary Williams, Cyfarwyddwr Corfforaethol Llywodraethu a Busnes |
| **Teitl** | Gweithdrefn Ddatrys Leol Awdurdodau Lleol |

## 1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

1.1. Mae'r adroddiad hwn yn ymwneud â meysydd o arfer da a amlygwyd gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru yn dilyn adolygiad diweddar o Weithdrefnau Datrys Lleol Awdurdodau Lleol.

## 2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

2.1. Er mwyn amlygu'r meysydd o arfer da a nodwyd yn dilyn adolygiad diweddar o Weithdrefnau Datrys Lleol Awdurdodau Lleol gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru.

## 3. Beth yw'r Argymhellion?

3.1. Bod y Pwyllgor yn cydnabod y meysydd o arfer da a amlygwyd gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru.

3.2. Bod y Pwyllgor yn cefnogi adolygu Gweithdrefn Ddatrys Leol Sir Ddinbych i sicrhau ei fod yn adlewyrchu'r arferion da eraill a nodwyd gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru.

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg. This document is available in English.

## 4. Manylion yr Adroddiad

4.1. Mae Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru wedi cynnal adolygiad o Weithdrefnau Datrys Lleol yn ddiweddar er mwyn nodi meysydd o arfer da a helpu awdurdodau lleol i ddatblygu eu gweithdrefnau.

4.2. Nodwyd bod meysydd o arfer da yn Sir Ddinbych a gaiff eu hargymell i awdurdodau eraill. Sef:

- Safonau ymddygiad a ddisgwylir gan aelodau
- Penderfyniadau priodol y gellir eu gwneud dan Weithdrefn Ddatrys Leol (GDL)

4.3. Rhai o'r meysydd eraill o arfer da a amlygwyd oedd:

- Materion sy'n addas i'w hystyried dan GDLl a'r rhai nad ydynt yn addas: Caerffili, Abertawe
- Materion sy'n addas i'w hystyried dan GDLl a'r rhai nad ydynt yn addas: Caerffili, Abertawe
- Cynnwys adran ar rôl Arweinwyr Grwpiau. Ceredigion, Abertawe a Gwynedd

4.4. Mae copi o Weithdrefn Ddatrys Leol Sir Ddinbych ynghlwm er gwybodaeth. Bydd adolygiad o'r ddogfen hon yn cael ei gynnal i sicrhau ei fod yn adlewyrchu meysydd o arfer da a nodwyd mewn mannau eraill.

## 5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at Gynllun Corfforaethol 2022 i 2027: Y Sir Ddinbych a Garem?

5.1. Bydd hyn yn cyfrannu at flaenoriaeth y Cyngor mewn perthynas â Chyngor sy'n cael ei gynnal yn dda, ac sy'n uchel ei berfformiad.

## 6. Faint fydd hyn yn ei gostio a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

6.1. Nid oes unrhyw gostau'n gysylltiedig â'r adroddiad hwn.

## 7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o Effaith ar Les?

7.1. Nid chwblhawyd asesiad o'r effaith ar les gan nad yw'n berthnasol.

## 8. Pa ymgynghoriadau sydd wedi’u cynnal gyda Chraffu ac eraill?

8.1. Ni chynhaliwyd unrhyw ymgynghoriad.

## 9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid

9.1. Nid oes angen datganiad Prif Swyddog Cyllid.

## 10. Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?

10.1. Nid oes unrhyw risgiau yn gysylltiedig â’r adroddiad hwn.